WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 124A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gynhaliwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r ddogfen hon, dylid cyfeirio at y Cod Ymarfer a gyhoeddir o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ddelio â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Yn achos y ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Roedd y tîm â'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Gillian Gillett, Mike Jones, Stephen Lisle, Dave Thomas ac Ann-Marie Harkin.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Adran 1: Archwilio cyfrifon 8

Yr wyf wedi cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw fy swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater, ac rwyf wedi cyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio 8

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio sicrhau cydbwysedd ariannol eleni 10

Mae dull llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol gadarn ac mae'n gwella, er fy mod wedi nodi rhai meysydd pellach i'w gwella 14

Dangosodd fy ngwaith archwilio perfformiad lleol rai risgiau TG yn ogystal â chyfle i wella dulliau rheoli'r fflyd lwyd a'r defnydd o'r contract ymgynghori 17

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a'i threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hynny a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Chwefror 2017. Yna, bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd, a darperir copi ohono i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogaf yn daer y dylai'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd hefyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Caiff negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio eu crynhoi dan y penawdau canlynol.

### Adran 1: archwilio cyfrifon

6 Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater.

7 Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ynghylch datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran y dyletswyddau hynny a'r goblygiadau ar gyfer 2016-17.

8 Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi yn briodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd o bwys. Ni ddatgelodd fy ngwaith unrhyw gamddatganiadau o bwys o ran rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

9 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ddiwedd 2015-16. Ceir rhagor o fanylion gennyf ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

10 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, a fu'n archwilio cadernid trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol a sicrwydd a'r cynnydd a wnaed o ran y materion i'w gwella a nodwyd y llynedd. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau archwilio penodol ar feysydd cyflenwi penodol, yn bennaf contract meddygon ymgynghorol y GIG, rheoli fflyd lwyd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru (GGC), ac asesiad risg o Dechnoleg Gwybodaeth a Rheoli (TGRh). Ar sail y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio sicrhau cydbwysedd ariannol eleni

11 **Cynllunio ariannol** – mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol effeithiol ar waith ac mae cyllidebau'n cael eu llywio gan flaenoriaethau strategol ond roedd y cynllun ariannol wedi tybio cynnydd mewn cyllid nad oedd wedi'i gymeradwyo gan y comisiynwyr ar adeg pennu'r cynllun.

12 **Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth** – mae'n ymddangos bod rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol.

13 **Monitro ac adroddiadau ariannol** – mae'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol yn darparu gwybodaeth gymharol gadarn i'r Bwrdd er mwyn iddynt wneud penderfyniadau a chefnogi camau adferol pe byddai eu hangen.

14 **Perfformiad ariannol** – llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni yn erbyn ei thargedau ariannol yn 2015-16 ond mae'n wynebu'r risg o beidio sicrhau cydbwysedd ariannol eleni.

## Mae dull llywodraethu a darparu sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol gadarn, er fy mod yn pwysleisio rhai meysydd pellach i'w gwella

15 **Cynllunio ac adrodd strategol** – Cynllunio ac adrodd strategol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) drwy gynyddu capasiti cynllunio a gwaith modelu gwell. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar gyflawniad yr IMPT er mwyn sicrhau aliniad da rhwng y strategaethau amrywiol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu datblygu.

16 **Sicrwydd ac effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau** – mae’r systemau sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae’r canfyddiadau a nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn dangos bod rhywfaint o le i wella.

17 **Strwythur sefydliadol** – mae’r Ymddiriedolaeth ar daith i sicrhau bod yr isadrannau yn cydweithio’n agosach ac mae’n cysylltu â Llywodraeth Cymru i egluro ei chylch gwaith llywodraethu ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

18 **Cynnydd wrth fynd i’r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol** – mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i’r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol er ein bod wedi nodi problemau wrth olrhain argymhellion eleni.

## Amlygodd fy ngwaith archwilio perfformiad lleol rai risgiau TG yn ogystal â chyfle i wella dulliau rheoli fflyd lwyd a defnyddio’r contract meddygon ymgynghorol

19 Yn ogystal â’r gwaith asesiad strwythuredig, yn ystod 2016 cynhaliodd fy nhîm waith archwilio perfformiad lleol ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG, rheoli fflyd lwyd yn GGC ac asesiad risg TGRh. Nodir prif ganfyddiadau’r gwaith hwn isod.

20 **Adolygiad dilynol contract meddygon ymgynghorol y GIG** – er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth weithredu fy argymhellion cenedlaethol a lleol, mae ganddi fwy o waith i’w wneud i sicrhau buddiannau bwriadedig y contract meddygon ymgynghorol.

21 **Rheoli fflyd lwyd** – mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymwybodol bod angen iddo adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei fflyd lwyd. Cadarnhaodd fy ngwaith ddiffyg rheolaethau a chyfrifoldebau cyffredinol, a phwysleisiodd yr angen i ystyried mabwysiadu arfer da priodol.

22 **Asesu risg TGRh** – mae fy ngwaith wedi amlygu nifer o risgiau sy’n gysylltiedig ag adnoddau, rheoli risg, newid arweinwyr a’r brif system TG canser.

23 Rydym yn ddiolchgar am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau’r Ymddiriedolaeth yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

24 Mae’r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi’r canfyddiadau allweddol o’r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Tachwedd 2016.

25 Caiff fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth ei gyflawni er mwyn ymateb i’r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004.[1] Mae’r ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio’r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a’u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) fy modloni fy hun bod y gwariant a’r incwm y mae’r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi’u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu; ac

c) fy modloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddi ddefnyddio adnoddau.

26 O ran (c) rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, o’r ffynonellau canlynol o dystiolaeth:

- canlyniadau gwaith archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a gyflawnwyd yn rhan o’m hasesiad strwythuredig diweddaraf o’r Ymddiriedolaeth, a fu’n archwilio’r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, gwaith llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau o berfformiad a gyflawnwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith gan gyrff adolygu allanol eraill, os ydynt yn berthnasol i’m cyfrifoldebau i; a
- gwaith arall, megis ardystio hawliadau a datganiadau.

27 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i’r Ymddiriedolaeth eleni. Mae’r negeseuon sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi’r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hynny. Mae rhestr o’r adroddiadau wedi’i chynnwys yn Atodiad 1.

28 Caiff canfyddiadau fy ngwaith eu hystyried dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwilio cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

29 Mae Cynllun Archwilio 2016 yn nodi’r ffi archwilio arfaethedig o £200,829 (nid yw’n cynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r ffi wirioneddol yn gydnaws â’r ffi a nodir yn y Cynllun Archwilio.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio cyfrifon

30 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, enillion a cholledion cydnabyddedig a'i lif arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

31 Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau o bwys – a achoswyd drwy dwyll neu gamgymeriad;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion eraill, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

32 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

## Yr wyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw fy swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Cafodd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd o bwys

33 Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i ni ar amser ac ar y dyddiad y cytunwyd arno, ac roedd ansawdd y papurau gwaith yn dda ar y cyfan.

34 Mae'n ofynnol i mi, yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260, adrodd ynghylch materion sy'n deillio o'm gwaith wrth y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu, cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 1 Mehefin 2016. Roedd y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yn ymwneud â'r balansau a'r trafodion a oedd yn ymwneud â Chronfa Risg Cymru ac rwyf wedi gwneud argymhellion ar welliannau ar y materion hyn a materion llai arwyddocaol. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw report.

## Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb a sylwadau ar y prif faterion a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Fe wnaethom brofi anawsterau sylweddol wrth archwilio trafodion a balansau **Cronfa Risg Cymru (CRC)** a oedd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, a nodwyd camgymeriadau perthnasol ynddynt. | Roedd y gwendidau a nodwyd yn cynnwys camgymeriadau wrth fewnbynnu data a defnydd anghywir o ffigurau disgwyliad oes, ond y gwendid mwyaf arwyddocaol oedd diffyg eglurder ynglŷn ag a ddylid datgelu achosion setliad strwythuredig yng Nghyfrifon Byrddau Iechyd unigol neu gan Gronfa Risg Cymru. Effaith net y camgymeriadau a nodwyd oedd tanddatgan darpariaethau o £2.622 miliwn, gorddatgan rhwymedigaethau o £7.856 miliwn, a gorddatgan rhwymedigaethau amodol o bell o £259,000.<br>Cytunodd rheolwyr CRC ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ddiwygio pob camgymeriad a nodwyd. Rydym wedi gwneud argymhellion ers hyn i wella gweithdrefnau i helpu i osgoi'r problemau hyn yn y blynyddoedd nesaf. |

35 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cafodd yr adolygiadau canlynol eu cyflawni gennyf hefyd:

- Datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol gwrthbartïon yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2016, a bod y datganiad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno'n gyson â'r datganiadau llawn a bod yr adroddiad blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

36 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau, a chyflwynwyd barn archwilio ddiannod.

## Ni thynnodd fy ngwaith sylw at unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn systemau rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth

37 Cafodd systemau rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth, yr oeddwn o'r farn eu bod yn berthnasol i'r archwiliad, eu hadolygu gennyf er mwyn fy helpu i adnabod ac asesu'r risg o gamddatganiadau o bwys ac ymateb iddi. Fodd bynnag, ni chafodd y systemau eu hystyried gennyf er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol.

# Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

38 Mae'n ofynnol yn statudol i mi fy modloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith dan sylw wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol, gan gynnwys cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad i'r broses o fantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig, yn cynnwys adolygiad o'r cynnydd a waned yn mynd i'r afael ag argymhellion yr asesiad strwythuredig y llynedd;
- adolygiadau archwilio lleol penodol, yn cynnwys rheoli fflyd lwyd yn GGC a'r asesiad risg TGRh;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith yr archwiliad blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol;
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth.

39 Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith hwn eu crynhoi dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbed yn effeithiol, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni

40 Roedd gwaith fy asesiad strwythuredig yn 2016 yn ystyried y camau mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor. Fe asesais sefyllfa ariannol y sefydliad, eu dull o gynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Mae fy nghanfyddiadau allweddol wedi'u crynhoi isod.

### Cynlluniau ariannol – mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynlluniau ariannol effeithiol ac mae cyllidebau'n cael eu llunio gan flaenoriaethau strategol, ond roedd y cynllun ariannol yn tybio cynnydd mewn cyllid nad oedd y comisiynwyr wedi'i gymeradwyo

41 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth IMTP cymeradwy am dair blynedd 2015-16 i 2017-18. Mae ei chynllun ar gyfer 2016-17 i 2018-19 hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet.

42 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith cadarn ar gyfer cynllunio cyllideb ar gyfer pennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau ac sy'n cynnwys deiliaid cyllidebau a chlinigwyr. Cyflwynir adroddiad i'r Bwrdd ar gynnydd ar ddatblygu'r gyllideb ac mae proses graffu, yn arbennig ar ddatblygu cynlluniau gwella costau.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei chynlluniau ariannol i gyflawni blaenoriaethau strategol, cydbwysedd ariannol ac i gyflawni mesurau ansawdd a chanlyniad. Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2016-17 i 2018-19 yn nodi gofyniad i gyflawni cyfanswm o £4.2 miliwn o arbedion, a oedd yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ragweld y byddai'n mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau arbed blynyddoedd yn y dyfodol wedi'u nodi eto.

44 Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2016-17 yn ymgorffori cynnydd cyllid o £1.4 miliwn i'r cytundeb hirdymor rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr, o ran Canolfan Ganser Felindre (CGF). Fe seiliodd yr Ymddiriedolaeth y cynnydd hwn ar y cynnydd canran o gyllid twf a dderbyniwyd gan y byrddau iechyd yn 2015-16. Fodd bynnag, nid oedd comisiynwyr yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno'n ffurfiol ar y cynnydd cyllid pan bennwyd y cynllun.

45 Roedd y cynllun ariannol hefyd yn cynnwys gofyniad o £1.2 miliwn o arbedion ar gyfer 2016-17 a oedd wedi cynyddu i £1.6 miliwn erbyn mis tri er mwyn ystyried pwysau ychwanegol. Mae nodi arbedion rheolaidd y gellir eu cyflawni yn y ganolfan ganser yn parhau i fod yn heriol, yn rhannol oherwydd pwysau costau heb eu hariannu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

### Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – mae'n ymddangos bod rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol

46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn wedi'i ategu gan gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, archebion sefydlog a chynllun dirprwyo, sy'n cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio.

47 Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r risgiau o golledion ariannol mewn cydweithrediad â swyddog Gwrth-dwyll Lleol penodol. Mae gan yr Ymddiriedolaethau Bolisïau Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban ar waith ac mae'n lliniaru risgiau drwy gynllun gwaith gwrth-dwyll blynyddol.

48 Mae’r Pwyllgor Archwilio yn chwarae rhan weithredol yn fframwaith rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae’r Pwyllgor yn cwrdd bob deufis ac yn adolygu ei archebion sefydlog yn ffurfiol, gan gynnwys cyfarwyddiadau ariannol sefydlog. Mae’r Pwyllgor Archwilio hefyd yn craffu ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol ac yn monitro cynnydd wrth weithredu argymhellion.

49 Mae’r gwaith Archwilio Mewnol yn adolygu systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth a’r rhai sy’n cael eu rheoli gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac yn adolygu systemau eraill ar sail cylch, yn seiliedig ar y lefelau risg. Cadarnhaodd y gwaith Archwilio Mewnol bod system o reolaeth ariannol fewnol gyffredinol gadarn ar waith.

### Monitro ac adroddiadau ariannol – mae trefniadau adroddiadau ariannol yn darparu gwybodaeth gymharol gadarn i lywio penderfyniadau’r Bwrdd a chefnogi camau adferol pe byddai angen

50 Mae’r Ymddiriedolaeth yn monitro ei sefyllfa ariannol bob mis yn unol â’i hamserlen adrodd fisol. Mae’r adran gyllid yn cwblhau ei phroses adrodd diwedd y mis o fewn pum diwrnod gwaith i ddiwedd y mis, a chyflwynir ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru erbyn diwrnod naw bob mis. Mae adroddiadau ariannol yn cael eu hystyried yn fisol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformio a chyfarfodydd y Bwrdd.

51 Canfu ein hadolygiad o adroddiad ariannol mis dau ei fod wedi’i strwythuro’n dda a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gyson a dibynadwy. Roedd yr adroddiad yn hawdd ei ddarllen ac yn cynnwys dangosfwrdd gyda’r sgorau coch-melyn-gwyrdd ar gyfer targedau ariannol allweddol.

52 Nodwyd cyfle gennym i wella amseroldeb adroddiadau’r Bwrdd oherwydd cyflwynwyd adroddiad ariannol mis dau i’r Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2016, 32 diwrnod ar ôl i’r cyfnod adrodd ddod i ben. Canfu ein hadroddiad o’r asesiad strwythuredig gyfleoedd hefyd i atgyfnerthu rhai agweddau ar gyflwyno adroddiadau ariannol drwy ddefnyddio tueddiadau, graffiau a naratif i ddarparu treiddgarwch ar y materion sylfaenol.

53 Darperir adroddiadau ariannol rheolaidd i ddeiliaid cyllidebau. Caiff yr adroddiadau hyn eu cynhyrchu yn fisol ac yn dilyn trafodaethau gyda rheolwyr cyllid maent yn cael eu cyfuno yn adroddiadau cyllid is-adrannol ac yn cael eu defnyddio i gyflwyno adroddiad i’r Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

54 Roedd datblygiad y cynlluniau adrannol wedi’i arwain gan glinigwyr ac mae cynlluniau arbed yn destun adolygiad a her gan Dimau Rheoli’r Gyfarwyddiaeth cyn eu hymgorffori yn gynlluniau ariannol a bydd y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a’r Bwrdd yn craffu arnynt ymhellach. Mae cynnydd yn erbyn cyflawniad yr arbedion yn cael ei fonitro’n fisol ar bob lefel yn yr Ymddiriedolaeth.

## Perfformiad ariannol – cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei thargedau ariannol yn 2015-16 ond mae'n wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni

55 Mae gan yr Ymddiriedolaeth lwyddiant blaenorol o gyflawni ei thargedau ariannol, gan gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2015-16, fel yn y blynyddoedd blaenorol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn hunan-ddibynnol ac wedi cyflawni yn ôl y bwriad, heb unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae'r sefyllfa gyffredinol yn cuddio sefyllfaoedd ariannol gwahanol yn ei hisadrannau. Fe gydnabu'r Ymddiriedolaeth yn gynnar yn y flwyddyn y byddai CGF yn gorwario ac y byddai GGC yn tanwario.

56 Roedd strategaeth ariannol 2015-16 yn cynnwys gofyniad o £3.636 miliwn o arbedion. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi cyflawni £2.65 miliwn (73%) o'r arbedion hyn. Roedd yr arbedion na lwyddwyd i'w cyflawni yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd gwasanaethau ac adolygiadau effeithlonrwydd yng Nghanolfan Ganser Felindre. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod natur reolaidd yr arbedion nas cyflawnwyd wedi creu pwysau costau ychwanegol i'r Ymddiriedolaeth wrth symud ymlaen.

57 Roedd cynllun ariannol 2016-17 yn ymgorffori cynnydd cyllid o £1.3 miliwn i'r ganolfan ganser LTA, yn seiliedig ar gynnydd canran mewn cyllid a dderbyniwyd gan y byrddau iechyd yn 2015-16. Nid oedd y cyllid ychwanegol hwn wedi'i gymeradwyo ar adeg pennu'r cynllun ac o ganlyniad mae'r Ymddiriedolaeth wedi adrodd gorwariant drwy 2016-17.

58 Cytunwyd a darparwyd cynnydd o 1%, sy'n gyfwerth â £500,000, wedi hynny gan y byrddau iechyd. Ym mis naw, y gorwariant a nodwyd oedd £5,000 ac mae rhagolwg diweddaraf yr Ymddiriedolaeth yn dangos gorwariant blynyddol posibl o £600,000.

59 Nid yw ein gwaith wedi nodi unrhyw dystiolaeth y gallai dulliau cyflawni sefydliadol neu ansawdd a diogelwch gwasanaethau gael eu cyfaddawdu neu eu bod wedi'u cyfaddawdu er mwyn cyflawni perfformiad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

## Mae dull llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol gadarn ac mae'n gwella, er fy mod wedi nodi rhai meysydd pellach i'w gwella

60 Mae fy ngwaith llywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio ac adroddiadau ariannol strategol a'r dull a ddefnyddir i ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd. Yr wyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael ag argymhellion yr asesiad strwythuredig a'r materion gwella blaenorol.

Cynllunio ac adrodd strategol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) drwy gynyddu capasiti cynllunio a gwaith modelu gwell. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar gyflawniad yr IMPT a sicrhau aliniad da rhwng y strategaethau amrywiol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu datblygu

61 Mae'r rhesymau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

62 **Datblygu'r IMTP**: mae'r gwaith o ddatblygu'r IMTP yn ceisio bod yn gynhwysol ac o'r bôn i'r brig, ac mae aelodau'r Bwrdd yn credu bod y broses IMTP wedi creu gwelliannau i ddull cynllunio'r Ymddiriedolaeth. Eleni rwyf hefyd wedi nodi dwy enghraifft gadarnhaol o'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth fodelu fanwl i gefnogi gwaith cynllunio strategol a gweithredol. Yr enghreifftiau oedd y model cynllunio a gweithgarwch sy'n cefnogi cynllun busnes y gwasanaeth Trawsnewid Gwasanaethau Canser a gwaith diagnostig y gadwyn gyflenwi yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

63 **Integreiddio'r IMTP gyda chynlluniau eraill**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymgysylltu mewn nifer fawr o weithgareddau datblygu strategol eleni. Dywedodd rhai o'r staff wrthym bod angen i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i gydgysylltu'r datblygiadau strategol amrywiol hyn.

64 **Rolau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r IMTP**: mae gan yr Ymddiriedolaeth rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir mewn cysylltiad â'r IMTP. Drwy gynnwys trafodaeth am yr IMTP ym mhob arfarniad blynyddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ymgorffori'r IMTP fel rhan hanfodol o'r gwaith yn y sefydliad.

65 **Craffu ar gyflwyno'r IMTP**: dangosodd arsylwadau fy nhîm o Fwrdd a phwyllgorau Felindre bod y gwaith o graffu ar gyflwyno'r IMTP yn parhau i fod yn gyfyngedig o ran amser a manylder.

66 **Cyflenwi newid strategol**: mae newidiadau ar raddfa fawr yn fwy cyffredin yn awr yn Felindre. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu argymhelliad y llynedd yn llawn eto ar yr angen i gynnal asesiad risg i asesu a oes gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti digonol i gyflenwi newid. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cyflwyno hyfforddiant a dull safonol o reoli rhaglenni.

### Sicrwydd ac effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau – mae'r systemau sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae rhywfaint o le i wella

67 Nodir fy rhesymau am y casgliad hwn isod.

68 **System sicrwydd y bwrdd**: mae'r dull a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i gynllunio ei system sicrwydd yn ymddangos yn gyffredinol effeithiol er y gellir sicrhau buddiannau pellach drwy ddilyn dull mapio sicrwydd mwy systemataidd. Lluniwyd y casgliad hwn gennyf oherwydd:

- er bod gan yr Ymddiriedolaeth broses gyffredinol effeithiol ar gyfer pennu amcanion corfforaethol, byddem wedi hoffi gweld dull mwy systemataidd yn cael ei ddefnyddio i fapio a rheoli'r risgiau a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r amcanion corfforaethol hyn.
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i wella'r dull o reoli risgiau, mae angen i'r Ymddiriedolaeth egluro'r broses ar gyfer cau risgiau i lawr ac adolygu'r ffordd mae risgiau isadrannau yn bwydo i'r gofrestr risg gorfforaethol. Gallai'r Ymddiriedolaeth elwa hefyd drwy ddysgu gan gyrff iechyd eraill, lle mae gwaith rheoli risg yn canolbwyntio ar risgiau gweithrediadol yn ogystal â'r risgiau o gyflawni amcanion corfforaethol/strategol y sefydliad.

69 **Effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da gyda'r materion a godwyd yn flaenorol gennym. Nodwyd cyfle pellach gennym hefyd i wella gweithrediad rhai pwyllgorau. Lluniwyd y casgliad hwn gennym oherwydd:

- mae aelodau'r bwrdd yn credu bod diwylliant agored yn yr Ymddiriedolaeth, er bod angen gwaith pellach i gydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru yn ddiweddar ar adrodd cyhoeddus tryloyw.
- er nad oes gennyf unrhyw bryderon penodol ynghylch defnydd yr Ymddiriedolaeth o sesiynau preifat ar gamera, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i adolygu'r dull hwn i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu mor dryloyw â phosibl.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennyf y llynedd ynglŷn â chynllunio olyniaeth y Bwrdd a rheoli perfformiad.
- yn dilyn adborth ar fy nghanfyddiadau interim, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i atgyfnerthu'r defnydd o adroddiadau ar y prif bwyntiau yn y pwyllgorau.
- mae fy ngwaith manwl yn nodi rhai o'r ffyrdd penodol y gall rhai o'r pwyllgorau wella'r ffordd maent yn gweithio. Er enghraifft, mae angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu cylch gwaith a chylch gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a'r Is-Grŵp Dysgu Sefydliadol.
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi bwriad i'r pwyllgorau hunanasesu eu heffeithiolrwydd bob blwyddyn, nid yw pob pwyllgor yn cynnal yr hunanasesiadau hyn.

### Strwythur sefydliadol – mae'r Ymddiriedolaeth ar daith i sicrhau bod yr isadrannau yn cydweithio'n agosach ac mae'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i egluro ei chylch gwaith llywodraethu ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

70 Nodir fy rhesymau am y casgliad hwn isod.

71 **Safbwyntiau'r staff**: mewn cyfweliadau eleni, roedd gan y staff safbwyntiau cymysg ynghylch y lefelau integreiddio presennol rhwng isadrannau'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, barn gyffredinol y staff oedd bod GGC yn agosach at ganol corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn awr nac yr oedd yn y gorffennol.

72 **Cyfarfodydd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd y cam cadarnhaol o gynnal cyfarfodydd y Bwrdd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru yn ogystal ag ym mhencadlys yr Ymddiriedolaeth.

73 **Digwyddiadau traws-sefydliadol**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithdai traws-sefydliadol gyda'r nod o wella'r gwaith ar draws yr isadrannau.

74 **Trefniadau cynnal**: mae'r trefniadau ar gyfer cynnal cyrff yn Felindre yn parhau i fod yn gymhleth ac eleni mae'r trefniadau wedi parhau i newid. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i weithio at sicrhau mwy o eglurder o ran cyfrifoldebau cynnal Felindre ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

### Cynnydd wrth fynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r materion o'r asesiadau strwythuredig blaenorol er fy mod yn nodi bod problemau eleni nad yw diweddariadau ar gamau gweithredu rheoli yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio mewn dull amserol

75 Roedd gwaith fy asesiad strwythuredig eleni yn adolygu cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed yn 2015. Yn gyffredinol, deuthum i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i gyflawni 6 o'r 11 o argymhellion o 2015. O ran y 3 argymhelliad arall, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd cywir ond nid yw wedi cwblhau eu gweithrediad, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar ddau argymhelliad arall, ond mae angen rhagor o waith arnynt.

76 Yn ogystal ag adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015, bûm hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach yr Ymddiriedolaeth i ymateb i argymhellion fy archwiliad. Er bod proses glir yn bodoli i olrhain gweithrediad yr argymhellion drwy Gynllun Gweithredu Archwilio'r Pwyllgor Archwilio, fe welais broblemau eleni a achoswyd yn sgîl peidio darparu diweddariadau ar gamau gweithredu rheoli i'r Pwyllgor Archwilio mewn dull amserol. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi dechrau ar broses o adolygu ei ddulliau olrhain archwiliadau yn awr.

## Dangosodd fy ngwaith archwilio perfformiad lleol rai risgiau TG yn ogystal â chyfle i wella dulliau rheoli fflyd lwyd a'r defnydd o'r contract meddygon ymgynghorol

### Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymwybodol bod angen iddo adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei fflyd lwyd. Cadarnhaodd fy ngwaith ddiffyg rheolaethau a chyfrifoldebau, ac amlygodd yr angen i ystyried mabwysiadu arfer da priodol

77 Ceir crynodeb isod o brif ganfyddiadau fy adolygiad o'r rheolaeth dros y fflyd lwyd yn GGC.

78 **Rolau a chyfrifoldebau**: nid yw GGC wedi nodi unrhyw gyfrifoldebau penodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd.

79 **Cynllunio**: nid oes gan GGC unrhyw gynllun, polisi na mesur perfformiad penodol sy'n ymwneud â'r fflyd lwyd.

80 **Rheolaethau**: prin iawn yw'r rheolaethau sydd gan GGC ar gyfer sicrhau bod gyrwyr cerbydau fflyd lwyd yn ddiogel a chyfreithiol.

81 **Monitro**: Ni chanfyddais unrhyw dystiolaeth o ddulliau corfforaethol o fonitro neu adrodd ar y defnydd o'r fflyd lwyd a'i effeithiau ariannol ac amgylcheddol.

### Fe amlygodd fy ngwaith nifer o risgiau a oedd yn gysylltiedig ag adnoddau, rheoli risgiau, newid arweinyddiaeth a'r prif system TG canser

82 Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau fy asesiad risg TGRh isod:

83 **Rheoli risgiau**: mae fformatau'r cofrestrau risg TGRh yn wahanol yn y gwahanol isadrannau, er gwaethaf polisi i hybu 'dull cyson o reoli risgiau'.

84 **Adnoddau**: dangosodd yr asesiad risg y gallai adnoddau TGRh cyfyngedig i staff, yn arbennig yng Nghanolfan Ganser Felindre, olygu nad yw anghenion defnyddwyr TG yn cael eu cyflawni yn y dyfodol.

85 **Arweinyddiaeth a strwythur**: Nodais newidiadau dros dro i arweinyddiaeth yn yr adran TG ac nad oes gan yr Ymddiriedolaeth Uwch Swyddog Risgiau Gwybodaeth ar hyn o bryd.

86 **Cynllunio**: Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun Amlinellol Strategol TG. Mae cynllun amlinellol yr Ymddiriedolaeth yn cael ei ddatblygu, a fydd yn arwain at Strategaeth TG.

87 **System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CANISC):** nododd fy arsylwadau a'm cyfweliadau bod pryderon y staff ynglŷn â pherfformiad system CANISC yn parhau i fod yn bwnc trafod cyffredin. Fodd bynnag, mae Grŵp Prosiect Systemau Gwybodaeth Canser newydd wedi'i sefydlu i ddarparu'r ysgogiad i dywys y Systemau Gwybodaeth Canser i'r dyfodol a'r rhaglen a fydd yn disodli CANISC.

**Llywodraethu**: mae cynllun gweithredu llywodraethu ar gyfer CGF, ond nid ar gyfer GGC. Yn ogystal, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a TGRh er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r aelodaeth.

## Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn gweithredu fy argymhellion cenedlaethol a lleol, mae ganddi fwy o waith i'w wneud i sicrhau buddiannau arfaethedig y contract meddygon ymgynghorol

88 Ceir crynodeb isod o brif ganfyddiadau fy ngwaith dilynol ar gontract meddygon ymgynghorol y GIG.

89 **Cynllunio swyddi**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau da ar gyfer adolygiadau cynllunio swyddi, fodd bynnag mae angen gwneud mwy i sicrhau bod pob cynllun swydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u bod yn ymgorffori'r defnydd o ganlyniadau yn y broses cynllunio swyddi.

90 **Buddiannau'r contract**: mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd i sicrhau buddiannau arfaethedig y contract, ond mae angen iddi wneud mwy i hybu'r gwaith o bennu canlyniadau a monitro oriau dros ben.

91 **Argymhellion blaenorol**: yn gyffredinol, canfu fy ngwaith bod gan yr Ymddiriedolaeth waith i'w wneud o hyd i weithredu 22 o'r 23 o argymhellion a nodwyd yn fy ngwaith blaenorol ar y contract meddygon ymgynghorol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 3: adroddiadau a gyflwynwyd ers fy adroddiad archwiliad blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth eleni.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwiliadau ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Llythyr Rheoli | Awst 2016 |
| Archwiliad o'r Adroddiad ar Ddatganiadau Ariannol FHOT | Hydref 2016 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol FHOT | Tachwedd 2016 |
| **Adroddiadau ar Archwiliadau Perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Gontract Meddyg Ymgynghorol | Medi 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Ionawr 2017 |
| Rheoli fflyd lwyd | Ionawr 2017 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |

### Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sy'n mynd rhagddo

Mae yna un archwiliad perfformiad sy'n parhau i fynd rhagddo yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir hyn yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau arfaethedig |
|---|---|
| Adolygiad o Gynllunio ar gyfer Rhyddhau Unigolion | Gorffennaf 2017 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru